

## Sultan Y Cob

Mae Sultan ei hun wedi ei lunio, dybiwn i 99% o wastraff y safle.

Cerflun 200 metr o hyd ydyw, a thybir mai hwn yw'r cerflun pridd mwyaf o'i fath ym Mhrydain, ond yn aml nid yw pobl yn sylwi arno nes tynnir eu sylw ato! Cafodd ei ddylunio gan artist o'r enw Mick Petts.

Roedd ganddo 2 yrrwr JCB yn gweithio yno, a bob dydd byddai'n paratoi palet llawn plaster a cherfio model fechan o'r hyn roedd o am iddynt ei wneud ar y diwrnod, oherwydd i ddechrau dim ond bwnd oedd o i warchod y safle rhag y gwynt, yn debycach i falwoden ddu na cheffyl.

Yna, tra'u bod yn gweithio byddai'n gyrru i'r pen uchaf, i'r man gwylio, yn edrych i lawr ac yna'n rhedeg yn ôl i lawr ac yn dweud "tynnwch tamed bach 'to oddi ar y goes 'na".

Ac mae Mick yn dweud ei fod mewn rhyw ffordd yn cynrychioli rhyddid olaf y cobiau pwll glo pan gaeodd y pyllau yn 1991. Pan adeiladwyd o gyntaf, doedd ganddo ddim enw, a'r bobl leol sy'n ei alw, neu wedi ei lysenwi'n, Sultan, ar ôl un o'r cobiau enwog oedd yn cael eu cadw yng Ngwaith Glo Penalltau.

Dw i'n credu bod y cerflun mae Mick wedi ei greu yn glyfar iawn, oherwydd mae'n defnyddio deunyddiau mewn ffyrdd gwahanol er mwyn rhoi pwyslais ar y cerflun ei hun. Felly, er enghraifft, mae'r isbridd yn gadael i'r gwair dyfu a gallwch weld hwnnw'n chwythu yn y gwynt pan mae'n tyfu, fel cob pwll glo brown blêr.

Ar y pen uchaf, mae ei lygaid wedi ei wneud o lo caled lleol.

Y carnau eu hunain, mi wnaethon ni adael y rhain heb unrhyw beth arnynt a gallwch weld y glo, y siâl a'r gwastraff, sydd yn ddu, ac yn edrych yn amlwg fel carnau ceffyl.

Cerflun wiail oedd y glust wreiddiol, ond wnaeth hwn ddim cydio oherwydd ei fod ar bwynt uchaf Sultan, felly fe wnaethon nhw ei newid am ddarn o fetel siâp clust. Yr hyn fydden ni'n hoffi yma ydy eich bod chi'n anfon eich sylwadau a'ch barn am y parc atom fel y gallwn gasglu adborth am olwg y parc a sut mae'n cael ei redeg.

Mae'r ardal fawr y tu ôl i'r maes digwyddiadau yn teimlo'n agored a hesb ond fe'i cynlluniwyd fel hyn ar gyfer Cornchwiglod. Mae angen ardaloedd lle gall y Cornchwiglod fwydo mewn pantiau, ac ardaloedd gwlyb. Felly, penderfynon ni ein bod am roi ardaloedd gwlyb ar y safle a chafodd Mick, yr artist, y syniad o'u creu'n olion traed anferth fel y byddai'n edrych fel bod Sultan wedi cerdded ar draws y safle.